Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bortffolio UCD Sir y Fflint
# Y Ganolfan Cynhwysiant
# Nant Mawr Road
# Bwcle
# Sir y Fflint
# CH7 2PX
# Y Deyrnas Unedig

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2015**

## Cyd-destun

Mae pedwar maes darpariaeth yn rhan o Bortffolio UCD Sir y Fflint:

1 Canolfan Cynhwysiant Troi Rownd yn Queensferry, ar gyfer hyd at wyth o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

2 Bryn Tirion a Tymor Byr, sef canolfan cynhwysiant tymor byr yn Shotton ar gyfer hyd at 18 o ddisgyblion cyfnodau allweddol 3 a 4 ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

3 Canolfannau YPEC a TGAU yng Ngholeg Cambria, ar gyfer hyd at 35 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

4 Canolfan Dysgu yn Shotton, ar gyfer hyd at 24 o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol

Ar hyn o bryd, mae 85 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mhortffolio'r UCD. Mae pump o'r rhain hefyd wedi cofrestru mewn ysgol. Mae gan wyth disgybl ddatganiadau o anghenon addysgol arbennig (AAA) ac mae 67 o ddisgyblion yn destun gweithredu gan yr ysgol a mwy. Mae pedwar deg un y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae wyth o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Heblaw am y ddarpariaeth cyfnodau allweddol 3 a 4 yn Tymor Byr, lle y gall ysgolion gyfeirio'n uniongyrchol am ymyriadau tymor byr, ar sail cofrestru deuol, daw pob cyfeiriad at bortffolio'r UCD drwy banel cymedroli'r sir.

Gwnaed newidiadau sylweddol i bortffolio'r UCD dros y 12 mis diwethaf, gyda thair darpariaeth yn symud i safleoedd eraill. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n cynnal adolygiad o'r gwasanaeth.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Dyma gryfderau Portffolio UCD Sir y Fflint:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson ac mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwella'u hymddygiad gydag amser
- Mae mwyafrif o'r disgyblion iau yn cael cymorth da ac yn dychwelyd yn llwyddiannus i'w hysgolion prif ffrwd
- Mae portffolio'r UCD yn cynnig ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu
- Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad yn effeithiol

Fodd bynnag, bernir bod cynnydd presennol portffolio'r UCD yn ddigonol oherwydd:

- Nid yw safonau ysgrifennu a rhifedd disgyblion cystal ag y dylent fod
- Mae presenoldeb cyffredinol yn rhy isel
- Ni chaiff yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yr un mynediad at raglen strwythuredig ffurfiol am 25 awr, ac nid ydynt yn ei derbyn
- Nid yw asesu ar gyfer dysgu yn gyson ar draws portffolio'r UCD
- Mae ansawdd cynlluniau addysg unigol (CAUau) a'r ffordd y cânt eu gweithredu yn amrywio'n ormodol ar draws portffolio'r UCD

### Rhagolygon gwella

Dyma gryfderau Portffolio UCD Sir y Fflint:

- Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer dyfodol portffolio'r UCD ac mae wedi gwneud newidiadau diweddar sydd wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau.
- Mae ychydig athrawon sy'n gyfrifol yn cydweithio'n agosach, er enghraifft wrth gynllunio i wella cysondeb
- Mae athrawon sy'n gyfrifol bellach â rolau arwain a rheoli gwell, sy'n cynnwys cyllidebu a rheoli materion staff
- O fewn canolfannau unigol, mae rheolwyr yn gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn gweithio fel tîm a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddysgu disgyblion, ynghyd â'u hanghenion ymddygiadol
- Mae'r corff llywodraethol a grëwyd yn ddiweddar yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd priodol ac mae'n dechrau rhoi mwy o her i arweinwyr a rheolwyr

Fodd bynnag, bernir bod rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- Mewn ychydig ganolfannau, megis dechrau datblygu y mae hunanarfarnu ac nid oes hunanarfarniad ar gyfer portffolio'r UCD cyfan

- Nid yw portffolio'r UCD yn defnyddio deilliannau o arsylwadau gwersi yn ddigon da i roi syniad clir i reolwyr o gryfderau a meysydd i'w datblygu
- Er bod data'n cael ei gasglu, ni chaiff ei ddadansoddi'n ddigon gofalus ar lefel strategol er mwy llywio gwella'r ysgol
- Nid yw rheolwyr wedi datblygu dull cyson a chydlynol ar draws yr holl ganolfannau eto
- Mewn ychydig ganolfannau, nid yw athrawon yn gallu cael at ddigon o reolaeth perfformiad a chymorth

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu a rhifedd disgyblion

A2 Gwella presenoldeb a monitro'r oriau y mae pob disgybl yn manteisio arnynt

A3 Cyflwyno asesu ar gyfer dysgu ar draws portffolio'r UCD

A4 Gwella ansawdd cynlluniau addysg unigol a'u gweithrediad ar draws portffolio'r UCD

A5 Cyflwyno dull strategol, ar y cyd, o reoli mewn un sefydliad

A6 Monitro ac arfarnu perfformiad disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion ar draws portffolio'r UCD

A7 Cyflwyno systemau rheoli perfformiad trylwyr i'r holl staff

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws portffolio'r UCD, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson. Datblygant eu medrau siarad a gwrando yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, mae disgyblion iau yn dysgu cymryd eu tro mewn sgwrs ac yn dechrau cymedroli eu hiaith yn briodol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion cyfnodau allweddol 2 a 3 yn gwella'u medrau gwrando ac yn dod yn siaradwyr mwy hyderus. Ymatebant i gwestiynau ac mae disgyblion mwy galluog yn rhoi esboniadau a disgrifiadau clir gan ddefnyddio geirfa addas. Mae ychydig ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o iaith sy'n benodol i bwnc, er enghraifft defnyddio a gallu diffinio geiriau fel cyflythreniad. At ei gilydd, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3, sy'n dilyn rhaglen astudio TGAU Saesneg, yn addasu eu hiaith yn dda i gyflawni'r tasgau a osodir.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ddarpariaeth cyfnodau allweddol 2 a 3 gyda medrau darllen ymhell islaw'r rhai a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn gwella cywirdeb a rhugldер eu darllen. Mae llawer ohonynt yn gwella'u medrau dealltwriaeth ac yn ateb cwestiynau ffeithiol ar y testun yn dda. Fodd bynnag, mae profiad disgyblion o ddefnyddio medrau darllen uwch, fel dod i gasgliadau a sgimio a sganio am ddarnau allweddol o wybodaeth, yn gyfyngedig. Mewn ymarferion ysgrifenedig, mae disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 4 yn arddangos eu dealltwriaeth o destunau gosod trwy gynnig barn a defnyddio tystiolaeth o'r testun yn dda i ategu eu barn.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â phortffolio'r UCD yn ysgrifenwyr amharod. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cyson yn datblygu eu gallu i ysgrifennu brawddegau syml a darnau byr o waith. Mae disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfleu ystyr gan ddefnyddio brawddegau syml ac maent yn ffurfio geiriau yn sicr yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn cofio digwyddiadau mewn stori gyfarwydd ac yn eu rhoi mewn trefn yn eu hysgrifennu. Maent yn sillafu geiriau syml yn briodol ac yn rhagdybio'n addas wrth sillafu geiriau anghyfarwydd. Mae ychydig ohonynt yn atalnodi eu gwaith yn gyson gan ddefnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn. Mae disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 4 yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres, gan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau ac maent yn gosod eu gwaith mewn paragraffau yn briodol. Mae eu hysgrifennu'n ddiddorol fel arfer ac yn dal sylw'r darllenwr yn dda. Fodd bynnag, mewn llawer o ganolfannau, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon da yn estynedig. Gydag amser, nid ydynt yn gwella'u gwaith ysgrifenedig yn ddigon da ac maent yn parhau i ailadrodd camgymeriadau sylfaenol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau mathemategol. Mae disgyblion mwy abl yn cysylltu parau o rifau i wneud cant, yn dosrannu rhifau tri digid ac yn datrys problemau adio syml. Mae disgyblion llai abl yn gwneud cynnydd cyson ond yn aml, nid ydynt yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth yn ddigon da. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, at ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn ystod gwersi mathemateg a, gyda

chymorth, siaradant am y strategaethau a ddefnyddiant i ddatrys problemau. Maent yn dod yn fwy hyderus i 'roi cynnig arni' heb i ofn methu eu dal yn ôl. Nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cael eu herio'n ddigon da ac, o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cyflawni eu potensial mewn mathemateg. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd i bwyso a mesur mewn gweithgareddau fel coginio. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio'r medrau a enillant mewn gwersi mathemateg yn ddigon da mewn pynciau eraill ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd datrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dilyn rhaglenni dysgu unigol yn gwneud cynnydd da wrth wella'u medrau darllen a rhifedd sylfaenol ac mae mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn wrth wella'u medrau sillafu. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn gallu manteisio ar y rhaglenni hyn.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau meddwl a'u medrau dysgu annibynnol.

Gan ystyried asesiadau gwaelodlin unigol disgyblion, nid oes gwahaniaethau pwysig rhwng perfformiad bechgyn a merched na rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyrraedd y targedau yn eu CAUau. Fodd bynnag, nid yw targedau bob amser yn benodol nac yn fesuradwy.

Nid yw'n briodol cymharu safonau cyflawniad ym mhortffolio'r UCD â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad gydag amser oherwydd yr ystod eang o anghenion arbennig sydd gan ddisgyblion. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r Dystysgrif Lefel Mynediad a'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn dangos bod y disgyblion sy'n sefyll yr arholiadau hyn yn cyflawni ystod briodol o gymwysterau at ei gilydd. Mae'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gadael portffolio'r UCD gyda chymhwyster cydnabyddedig ac mae bron pob un ohonynt yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ym mhortffolio'r UCD ac o'r farn bod y staff yn eu trin gyda pharch. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref ar draws canolfannau portffolio'r UCD.

Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gadw'u hunain yn iach a gwnânt ddewisiadau gwybodus am eu diet. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau ffrwythau amser egwyl ac nid ydynt yn dod â diodydd pefriog i bortffolio'r UCD.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sydd wedi'u trefnu, am y tro cyntaf yn aml, ac yn eu mwynhau. Maent yn elwa o gael ystod eang o weithgareddau awyr agored, gan gynnwys cyfleoedd preswyl fel taith wersylla i Ynys Môn. Maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian yn rheolaidd.

Mae ymddygiad disgyblion yn y ganolfan a'r cyffiniau yn dda at ei gilydd. Mae lefel y gwaharddiadau yn isel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwella'u hymddygiad gydag amser. Dysgant sut i reoli eu dicter a lleihau gwrthdaro â staff a disgyblion eraill. Mae'r disgyblion hynny â lefelau uchel o bryder yn ennill hyder ac yn dod yn fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a mynegi eu hunain. Mae disgyblion a rhieni yn cydnabod effaith gadarnhaol y newidiadau hyn ar ansawdd eu bywyd.

Trwy waith â ffocws gofalus gan staff, mae disgyblion yn cael cipolwg ar ymddygiadau peryglus a sut i gadw'u hunain yn ddiogel. Er enghraifft, enillant ddealltwriaeth dda o berthnasoedd camdriniol, diogelwch ar-lein a sut i wella'u ffordd o uniaethu ag eraill. Maent yn myfyrio ar effaith bwlio ac yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn dod ar ei draws.

Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i roi eu barn am bortffolio'r UCD ac yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt. Mynegant eu barn yn anffurfiol, mewn gwersi, ac yn fwy ffurfiol mewn adolygiadau a chyfarfodydd dosbarth. Fodd bynnag, nid oes cyngor ysgol gan bob canolfan, gyda chyfleoedd ffurfiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau am waith portffolio'r UCD.

Mae presenoldeb cyffredinol disgyblion, sef 71%, yn rhy isel. Mewn un ganolfan, mae mor isel â 48%. Mae enghreifftiau da o ddisgyblion sydd bellach yn mynychu'n rheolaidd ar ôl blynyddoedd o beidio â mynychu. Fodd bynnag, mae'r lefelau presenoldeb isel yn cael effaith negyddol ar les disgyblion.

Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n mynychu'r ddarpariaeth yn y coleg lleol yn gallu manteisio ar raglen strwythuredig ffurfiol, 25 awr. Er eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau'r tu allan i'r coleg, nid yw pob disgybl yn dewis gwneud hynny. Nid yw'r lefelau uchel hyn o amser heb ei strwythuro yn paratoi disgyblion at fywyd gwaith.

Rhwng 2011-2014, dychwelodd mwyafrif o ddisgyblion a oedd yn defnyddio'r ddarpariaeth tymor byr i'r ysgol yn llwyddiannus, gan ddal at eu lleoliadau ysgol.

Fe wnaeth bron pob un o'r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 gymryd rhan mewn profiad gwaith y llynedd. Mae disgyblion yn mwynhau'r lleoliadau hyn ac yn cydnabod eu gwerth o ran datblygu medrau gwaith.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae portffolio'r UCD yn cynnig cwricwlwm craidd addas sy'n bodloni gofynion statudol. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu.

Mae gweithgareddau cyfoethogi, fel ymweliadau gan gwmni theatr a gweithgareddau awyr agored, yn nodwedd gref o brofiadau dysgu disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac ehangu eu gorwelion.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys ffocws priodol ar addysg bersonol a chymdeithasol sy'n defnyddio arbenigedd a gwasanaethau asiantaethau allanol yn dda. Er enghraifft, mae Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yr Heddlu a sesiynau dan arweiniad y Tîm Alcohol a Chyffuriau Pobl Ifanc yn helpu disgyblion i gadw'n ddiogel a deall eu cyfrifoldebau fel dinasyddion.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cael cyfle i fynychu darpariaeth allgyrsiol yr awdurdod lleol, sef Amser Newid, sy'n cynnig amrywiaeth o leoliadau profiad gwaith da, gan gynnwys mecaneg beiciau modur, siop gemau cyfrifiadurol a swyddfa cyfreithwyr. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n manteisio ar yr opsiynau hyn ac yn derbyn eu hawl lawn i ddarpariaeth addysgol.

Mae ychydig ganolfannau'n cynllunio'n dda i ddatblygu medru siarad, gwrando a darllen disgyblion mewn amrywiaeth o bynciau. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r cynllunio cyffredinol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae cynlluniau gwaith addysg bersonol a chymdeithasol, a daearyddiaeth, ar draws pob canolfan yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion fynd i'r afael ag agweddau ar ddiwylliant Cymru a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae portffolio'r UCD yn trefnu darpariaeth addas i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd. Er enghraifft, caiff disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 gyfle i dyfu eu bwyd eu hunain yn yr ardd berlysiau ac ar eu rhandir.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod ac yn deall eu disgyblion yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynghylch ymddygiad, gosodant ffiniau clir ac ymatebant yn gyflym pan fydd problemau'n codi.

Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn cynllunio'r gwaith yn ofalus i fodloni anghenion a galluoedd dysgwyr. Gosodant amcanion dysgu clir a gwnânt ddefnydd da o sesiynau dosbarth llawn i wirio dealltwriaeth disgyblion. Er mwyn cynnal diddordeb disgyblion, cynlluniant amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnal cyflymder bywiog drwy gydol y wers. Defnyddiant adnoddau ansawdd da sy'n aml yn cael eu haddasu'n bwrpasol ar gyfer eu disgyblion penodol. Mae athrawon yn talu sylw gofalus i lythrennedd ac yn annog disgyblion i ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau datblygol. Disgwyliant i ddisgyblion ddefnyddio amrywiaeth o eirfa, gan gynnwys yr iaith dechnegol briodol. Mae staff yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol, ystyried sefyllfaoedd a meddwl am atebion.

Fodd bynnag, mewn gwersi eraill, nid yw'r gwaith a osodir yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion ac nid oes digon o waith ymarferol i atgyfnerthu dysgu. Nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau ysgrifennu ac ni roddant ddigon o bwyslais ar bwysigrwydd cyflwyniad. Nid ydynt yn gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'r wers ac yn cael cyfle i gyfrannu. Mewn ychydig wersi, nid yw cynorthwywyr addysgu yn chwarae rhan weithgar. Nid yw staff bob amser yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae portffolio'r UCD yn casglu amrywiaeth o ddata asesu.  Fodd bynnag, ni chaiff y data hwn ei ddefnyddio'n gyson dda i gynllunio gwaith sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae athrawon yn marcio llyfrau'n rheolaidd ond nid oes system farcio gyffredin ar draws portffolio'r UCD.  Nid yw marcio bob amser yn dweud wrth ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella.  Nid yw asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd gyson ar draws portffolio'r UCD eto.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni a gofalwyr yn drylwyr ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gyflawniad academaidd disgyblion ynghyd â'u hymddygiad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir i ddisgyblion yn effeithiol.  Mae polisïau priodol ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae portffolio'r UCD yn mynd ati i hybu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy wasanaethau, gweithgareddau'r cwricwlwm ac ymweliadau addysgol.

Mae'r UCD yn gwneud trefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach.  Mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol yn berthnasol ac yn cynnwys modiwlau pwysig ar fyw'n iach a chadw'n iach.  Mae modiwlau ar ymwybyddiaeth o gyffuriau, rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar y rhyngrwyd yn galluogi disgyblion hŷn i wneud dewisiadau gwybodus a datblygu cyfrifoldeb personol.

Mae dull clir a chadarnhaol o reoli ymddygiad.  Caiff ei ddefnyddio'n llwyddiannus ar draws pob canolfan i ddarparu amgylchedd digynnwrf sy'n cynorthwyo â dysgu disgyblion.

Mae portffolio'r UCD wedi cymryd camau i wella presenoldeb disgyblion.  Mae staff yn dilyn absenoldebau i fyny'n brydlon, gan ddefnyddio gweithdrefn gytûn, ond nid yw hyn wedi cael effaith ar bresenoldeb cyffredinol eto.

Mae portffolio'r UCD yn defnyddio ystod eang o wasanaethau arbenigol yn effeithiol, fel therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr addysgol, Heddlu Gogledd Cymru a'r Tîm Alcohol a Chyffuriau.  Mae partneriaeth gref â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Phlant wedi arwain at sefydlu 'Grwpiau cyfeillion', sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch.

Mae CAUau gan y rhan fwyaf o ddisgyblion.  Mae'r CAUau gorau yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy ac mae disgyblion a rhieni yn cymryd rhan mewn adolygiadau yn rheolaidd.  Fodd bynnag nid yw ansawdd cynlluniau a'u gweithrediad yn gyson ar draws yr holl ganolfannau.

Caiff adolygiadau blynyddol statudol o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig eu trefnu'n dda, maent yn addysgiadol a chânt eu cwblhau o fewn terfynau amser statudol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae portffolio'r UCD yn sefydlu ethos cynhwysol a gofalgar ac mae'n cynnig amgylchedd croesawgar. At ei gilydd, mae canolfannau unigol yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda. Mae arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch y canolfannau unigol wedi'u cyflwyno'n dda. Maent yn cynnwys gwaith disgyblion ac yn addysgiadol, yn berthnasol ac yn gyfredol.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried barn disgyblion wrth wneud gwelliannau i'r safleoedd, er enghraifft gwella'r addurno. Mae digon o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu.

Er bod lleoedd allanol ar fwyafrif y safleoedd, mae diffyg darpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar un safle. Mae'r holl adeiladau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a chadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr holl staff rolau a chyfrifoldebau clir, y maent yn eu deall yn dda. Yn y canolfannau unigol, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu'n cydweithio'n effeithiol i gefnogi anghenion dysgu ac anghenion ymddygiadol y disgyblion.

Yn briodol, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rolau arwain a rheoli'r athrawon sy'n gyfrifol, sydd bellach yn cymryd cyfrifoldeb am gyllidebau a materion staffio yn eu canolfannau. Yn ddiweddar, mae un o'r athrawon sy'n gyfrifol wedi ymgymryd â chyfrifoldebau arwain a rheoli ychwanegol mewn canolfan arall. Mae hyn wedi gwella cynllunio strategol yn y ddwy ganolfan hyn. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon sy'n gyfrifol yn cael hyfforddiant priodol i gyflawni'r agweddau strategol ar eu gwaith. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn llwyr ddeall yr hyn sydd ei angen, er enghraifft yn gysylltiedig â hunanarfarnu a chynllunio datblygiad.

Mae athrawon sy'n gyfrifol yn cyfarfod bob pythefnos i rannu gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r canolfannau unigol yn cydweithio'n ddigon da i gynllunio neu ddatblygu arfer dda. Yn ogystal, nid yw trefniadau arwain a rheoli cyffredinol yn arwain at ddull cydlynol ar draws portffolio'r UCD.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi llunio pwyllgor rheoli newydd, gan roi enw corff llywodraethol arno. Mae'n cynnwys ystod addas o randdeiliaid sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol, er enghraifft cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a chyfiawnder ieuenctid. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn frwdfrydig ynghylch datblygiad yr UCD yn y dyfodol. Maent yn darparu cymorth defnyddiol i'r UCD ac wedi cydnabod bod angen datblygu eu rôl fel ffrind beirniadol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Cynhelir hunanarfarnu ar lefel canolfan unigol ar draws portffolio'r UCD. Fodd bynnag, megis dechrau ei ddatblygu yw hwn ym mwyafrif y canolfannau. Nid yw arweinwyr yn defnyddio'r adroddiadau hunanarfarnu unigol i lunio dadansoddiad nac arfarniad cyffredinol i bortffolio'r UCD. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod lleol a'r athrawon sy'n gyfrifol yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon da o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws portffolio'r UCD cyfan.

Yn y canolfannau unigol, mae'r holl staff yn cymryd rhan yn y broses hunanarfarnu. Mae'r canolfannau'n casglu barn disgyblion a rhieni a gofalwyr trwy holiaduron rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanarfarnu'n cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata nac yn canolbwyntio'n ddigon ar ddeilliannau disgyblion. Nid ydynt yn nodi meysydd i'w datblygu'n ddigon clir ac, o ganlyniad, mae'r cysylltiadau â'r cynlluniau datblygu yn wan. Mae camau gweithredu allweddol yn y cynlluniau datblygu yn ymwneud yn bennaf â'r ddarpariaeth a phrin yw'r cyfeiriad ynddynt at safonau disgyblion. Nid yw'r rhan fwyaf o'r cynlluniau'n blaenoriaethu camau gweithredu'n ddigon clir.

Mae gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr UCD gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth hon wedi'i hamlinellu eto mewn cynllun clir sy'n amlinellu camau gweithredu allweddol ac amserlenni.

Mewn ychydig iawn o'r canolfannau, mae arsylwadau ffurfiol o wersi yn helpu athrawon i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ganolfannau, ni chynhelir arsylwadau gwersi neu dechreuwyd eu cynnal yn ddiweddar iawn. O ganlyniad, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws portffolio'r UCD.

Er bod canolfannau unigol yn casglu ystod o ddata ar ddeilliannau disgyblion, megis dechrau y mae dadansoddi'r data hwn. Nid yw portffolio'r UCD yn coladu ei ddata ar draws yr holl ganolfannau. O ganlyniad, ni all rheolwyr yn yr awdurdod lleol ddadansoddi data yn effeithiol i nodi meysydd i'w datblygu a llywio cynllunio strategol a gwella'r UCD.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud ychydig o newidiadau strategol pwysig sydd wedi gwella'r ddarpariaeth a'r safonau ym mhortffolio'r UCD. Er enghraifft, mae pedair o'r canolfannau wedi symud i adeiladau mwy priodol ac addas at eu diben. Mae adleoli dwy ganolfan yn y coleg lleol wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau y mae eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer addysg bellach a gwaith. Fodd bynnag, mae cynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion o'r adolygiad blaenorol wedi bod yn rhy araf. Yn benodol, nid yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â materion arwain a rheoli cyffredinol fel bod dull cydlynol ar draws portffolio'r UCD.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan bortffolio'r UCD lawer o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid a'r heddlu. Mae hyn yn caniatáu i

ddisgyblion fanteisio ar asesu a chymorth effeithiol yn brydlon, ynghyd â mwy o gyfleoedd i ehangu eu profiadau bywyd. Mae partneriaethau cryf â rhieni ac mae rhieni o'r farn y gallant gysylltu â'r athrawon sy'n gyfrifol pan fydd angen. Trwy berthynas gadarnhaol portffolio'r UCD ag asiantaethau lleol, gellir ymateb yn gyflym i newidiadau yn anghenion ac amgylchiadau disgyblion.

Mae cysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol a gwirfoddolwyr. Er enghraifft, mae busnesau lleol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr am brofiad gwaith. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion baratoi'n dda ar gyfer byd gwaith. Mae ystod eang o wirfoddolwyr a mudiadau cymunedol yn ehangu gorwelion disgyblion ar draws portffolio'r UCD, er enghraifft yn y celfyddydau, chwaraeon a medrau coetir. Mae'r profiadau hyn yn galluogi disgyblion i fagu hyder ac ennill dyfarniadau.

Mae gan bortffolio'r UCD gysylltiadau llwyddiannus, sefydledig â'r ysgolion uwchradd lleol ac mae'n gweithio'n agos ag uwch arweinwyr. Er enghraifft, mae ysgolion yn darparu ac yn marcio gwaith i ddisgyblion yn yr uned arhosiad byr. Mae portffolio'r UCD yn cymryd rhan weithgar mewn rhwydweithiau datblygu staff yn yr awdurdod lleol ac mewn consortia ehangach. Er enghraifft, mae athrawon sy'n gyfrifol yn mynychu fforwm UCDau gogledd Cymru ac mae athrawon yn mynychu cyfarfodydd datblygu mathemateg a Saesneg. Mae hyn wedi caniatáu i staff portffolio'r UCD elwa'n dda o rannu gwybodaeth ac arfer dda lleoliadau eraill.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan bortffolio'r UCD lefel briodol o staff i addysgu'r cwricwlwm. Mae rheolwyr yn dosbarthu staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u profiad. Mae staff cymorth yn cyflawni eu rolau'n dda ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith a bywyd portffolio'r UCD. Caiff yr holl staff addysgu amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol. Fodd bynnag, nid yw pob athro wedi gallu manteisio ar gymorth a rheolaeth perfformiad llawn.

Mae portffolio'r UCD yn gweithio'n agos ag ysgolion, ymgynghorwyr a phartneriaid eraill. Mae rheolwyr wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid lythrennedd a rhifedd i ddatblygu llythrennedd ar draws portffolio'r UCD. Er enghraifft, mae rheolwyr wedi archwilio datblygiad llythrennedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Gall staff fanteisio ar ystod eang o hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw portffolio'r UCD yn mesur effaith hyfforddiant staff ar safonau disgyblion yn ddigon da.

Mae'r athrawon sy'n gyfrifol yn rheoli adnoddau'n dda yn y canolfannau unigol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae adnoddau fel staff, ymyriadau cynllunio a datblygiadau yn cael eu rhannu'n effeithiol ar draws canolfannau ym mhortffolio'r UCD. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r trosolwg strategol o ddosbarthiad ac effaith adnoddau.

Yng ngoleuni'r cynnydd a'r safonau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, mae portffolio'r UCD yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur arbennig (cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 38 | 32 | 1 | 5 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 84% | 3% | 13% | |
| | | 89% | 3% | 8% | |
| The school deals well with any bullying. | 38 | 29 | 2 | 7 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 76% | 5% | 18% | |
| | | 77% | 11% | 12% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 38 | 30 | 1 | 7 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 79% | 3% | 18% | |
| | | 84% | 7% | 9% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 38 | 24 | 7 | 7 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 63% | 18% | 18% | |
| | | 74% | 12% | 14% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 38 | 22 | 11 | 5 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 29% | 13% | |
| | | 72% | 18% | 10% | |
| I am doing well at school | 38 | 29 | 2 | 7 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 76% | 5% | 18% | |
| | | 80% | 5% | 15% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 38 | 35 | 2 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 92% | 5% | 3% | |
| | | 94% | 4% | 3% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 38 | 36 | 0 | 2 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 95% | 0% | 5% | |
| | | 93% | 3% | 4% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 38 | 17 | 9 | 12 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 45% | 24% | 32% | |
| | | 55% | 27% | 18% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 38 | 30 | 5 | 3 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 79% | 13% | 8% | |
| | | 83% | 12% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 38 | 25 | 6 | 7 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 66% | 16% | 18% | |
| | | 73% | 17% | 10% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 38 | 24 | 7 | 7 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 63% | 18% | 18% | |
| | | 70% | 15% | 15% | |

# Ymatebion i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | | |
| My child likes this school. | 12 | 8 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 67% | 25% | 8% | 0% | | |
| | | 65% | 30% | 4% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 12 | 9 | 2 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 6 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 46% | 54% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 28% | 4% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 12 | 3 | 5 | 2 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 25% | 42% | 17% | 0% | | |
| | | 40% | 40% | 7% | 1% | | |
| Teaching is good. | 12 | 8 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 0% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 6 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 5 | 2 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 40% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 38% | 33% | 4% | 4% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 9 | 2 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 75% | 17% | 8% | 0% | | |
| | | 75% | 22% | 1% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 6 | 2 | 2 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 15% | 15% | 0% | | |
| | | 62% | 30% | 4% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 8 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 80% | 10% | 10% | 0% | | |
| | | 75% | 23% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 12 | 6 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 2% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 13 | 7 | 5 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 54% | 38% | 8% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 2% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 9<br>69% | 3<br>23% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 82% | 16% | 1% | 0% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 12 | 7<br>58% | 3<br>25% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 60% | 32% | 4% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 6 | 3<br>50% | 3<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 74% | 22% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 6<br>46% | 5<br>38% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 51% | 27% | 7% | 4% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 5<br>45% | 0<br>0% | 4<br>36% | 2<br>18% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 69% | 22% | 3% | 2% | | |
| The school is well run. | 11 | 8<br>73% | 2<br>18% | 0<br>0% | 1<br>9% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 80% | 16% | 2% | 1% | | |

# Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mrs Claire Yardley | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Ms Pauline Preston | Arolygydd Tîm |
| Mrs Justine Elaine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Dr Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Alec Ian Clark | Arolygydd Cymheiriaid |
| Megan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Messum | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg